

Heaven and Earth Nefoedd a Daear

The supper at Emmaus / Y Swper yn Emmaus Ceri Richards



Drawing of Altar Piece - The Supper at Emmaus' Chapel of St Edmund Hall, Oxford University

The Methodist Modern Art Collection in Wrexham
Casgliad Celfyddyd Fodern y Methodistiaid Wrecsam

19 January / Ionawr - 26 March / Mawrth 2015

The **Methodist** Church
Yr Eglwys **Fethodistaidd**

Free Entry /
Mynediad Am Ddim

PRIFYSGOL
glyndŵr
UNIVERSITY

A welcome from Ian Lucas MP for Wrexham Croeso gan Ian Lucas AS Wrecsam

I am absolutely delighted that the Methodist Modern Art Collection is coming to Wrexham. Its visit means that we will have the chance to see the most prestigious collection of this type outside the Vatican, Rome. Art lovers – and amateur painters like myself – will relish the huge variety of pictures, ranging from colourful abstracts to incredibly detailed, life-like paintings. There is truly something for everyone.

The visual arts are an important part of the telling of our spiritual lives. Artists have always been inspired by religion, as we can see in many of our places of worship in Wrexham, ancient and modern. The beautiful stained glass and medieval murals of our own St Giles Church show us how artists of the past have brought their faith to life. This wonderful collection of modern art shows us that modern artists can do the same through their work, bringing fresh perspectives to familiar and well-loved stories and challenging us to think differently about them.



The Dalit Madonna
Y Ffawen Dalitwaeth
Jyoti Sahi

Methodism has a strong tradition of using the arts. John Wesley used poetry and Charles Wesley used music to express their faith and, now, artists come together in this collection to present their visual impressions to us. Having viewed some of the works to be displayed, I am looking forward to seeing this extraordinary collection of work in detail. I know that the people of Wrexham, where we enjoy a strong cultural life, will be eager to see this unique exhibition and to reflect on the beauty, ideas and faith expressed therein. Thank you to the Methodist Modern Art Collection, and for all who have worked hard to bring this wonderful collection to our town.

Pleser o'r mwyaf oedd clywed fod y Casgliad o Gelfyddyd Fodern Fethodistaidd yn dod i Wrecsam. Mae ei ymweliad yn golygu y cawn gyflwr i weld y casgliad gorau o'i fath y tu allan i'r Fatican yn Rhufain. Bydd carwyr celf – a phaentwyr amatur fel ffinnau – yn cael blas ar yr amrywiaeth eang o luniau, yn amrywio o luniau haniaethol lliwgar i baentiadau anhygoel o fanwl a byw. Yn wir, mae yna rywbeth at ddant pawb.

Mae'r celfyddydau gweledol yn ffordd bwysig o adrodd ein bywydau ysbrydol. Mae artistiaid wedi cael eu hysbrydoli gan grefydd erioed, fel y gwelwn yn ein haddoldai niferus, hynafol a modern, yma yn Wrecsam.

Dengys gwyrddwr lliw hardd a murluniau canoloesol Eglwys San Silyn i ni sut oedd artistiaid y gorffennol yn dod â'u ffydd yn fyw. Mae'r casgliad ardderchog yma o gelfyddyd fodern yn dangos i ni fod artistiaid modern yn medru gwneud yr un peth yn eu gwaith hwythau, gan ddod â safbwyntiau ffres i straeon cyfarwydd a phoblogaidd a'n herio i feddwl amdanynt mewn ffordd wahanol.

Mae gan Fethodistaeth draddodiad cryf o ddefnyddio'r celfyddydau. Roedd John Wesley yn defnyddio barddoniaeth a Charles Wesley yn defnyddio cerddoriaeth i fynegi eu ffydd ac, yn awr, daw artistiaid ynghyd yn y casgliad hwn i gyflwyno eu hargraffiadau gweledol i ni. Ar ôl gweld rhywfaint o'r gwaith sy'n cael ei arddangos, edrychaf ymlaen at weld y casgliad rhyfeddol yma yn ei gyfarwanhau. Gwn y bydd pobl Wrecsam, lle'r ydym yn mwynhau bywyd diwylliannol brwd, yn eiddgar i weld yr arddangosfa unigryw hon ac i fyfyrto ynghylch yr harddwch, y syniadau a'r ffydd a fynegir ynddynt. Diolch i'r Casgliad o Gelfyddyd Fodern Fethodistaidd, ac i bawb sydd wedi gweithio mor galed i ddod â'r casgliad ardderchog yma i'n tref.

A word from Rev. Richard Sharples and Prof. Estelle Thompson

Gair gan y Parch. Richard Sharples a'r Athro Estelle Thompson

Dear Friends,

There's something happening in Wrexham, and the Arts are at the centre. New partnerships. New spaces. New projects. New energy. This exhibition and the accompanying programme is the fruit of a partnership of two years between the University and the Methodist Circuit. Unlikely partners? Perhaps. But in truth the University and the Town have moved towards each other in recent years; in the formation of a Community Choir, in the continuing of the Science Festival, in the purchase of the Racecourse Stadium and in the building of the Catrin Finch Centre, for example. In turn the Methodist Church has moved towards the University; through the University Chaplaincy and through the placing of students' work in the new 'Art Space' within the Church entrance tower. We hope that this

exhibition and programme will further that conversation, as unlikely partners move close enough to talk and – more importantly – to listen to one another. We further hope that it might contribute towards making Wrexham a more creative, alive, energized and 'happening' place.

Richard Sharples, Methodist Superintendent Minister and Professor Estelle Thompson, Head of Division Media, Arts & Design, Glyndŵr University.

Annwyl Gyfeillion,

Mae yna rywbeth ar droed yn Wrecsam, ac mae'r Celfyddydau wrth ei graidd. Partneriaethau newydd. Gofodau newydd. Prosiectau newydd. Egni newydd. Mae'r arddangosfa hon ar rhaglen sy'n mynd gyda hi yn ffrwyth partneriaeth dwy flynedd rhwng y Brifysgol a'r Gylchdaith Fethodistaidd. Partneriaid annhebygol? Efallai. Ond y gwir amdani yw fod y Brifysgol a'r Dref wedi closio at ei gilydd yn ystod y blynyddoedd diweddar; yn sgil ffurfio Cŵr Cymunedol, parhad yr ŵyl Wyddoniaeth, prynu Stadiwm y Cae Ras a chodi Canolfan Catrin Finch, er enghraifft. Yn ei thro, mae'r Eglwys Fethodistaidd wedi closio at y Brifysgol; trwy Gaplaniaeth y Brifysgol ac yn sgil arddangos gwaith myfyrwyr yn y 'Gofod Celf' newydd o fewn tŵr mynediad yr Eglwys. Rydym yn gobeithio y bydd yr arddangos a'r rhaglen yn hybu'r cyfathrebu hwnnw, wrth i bartneriaid annhebygol glosio digon i siarad ac – yn anad dim – i wrando ar y naill a'r llall. Gobeithiwn hefyd y bydd yn cyfrannu tuag at wneud Wrecsam yn lle mwy creadigol, bywiog, egniol a llawn digwydd.

Richard Sharples, Gweinidog Arolygol Methodistaidd ac a'r Athro Estelle Thompson, Pennaeth Adran y Cyfryngau, Celfyddydau a Dylunio, Prifysgol Glyndŵr.



The Healing of the Lunatic Boy
Iachau'r Bachgen Gwallgof
John Reilly

Mon 19 Jan, 4pm
University

6pm
Church

Llun 19 Ion, 4pm
Prifysgol

6pm
Eglwys

Public Opening / Agoriad Cyhoeddus



Pieta Elisabeth Frink

Featuring music from the University and Community Choirs, the exhibition will be officially opened by Ceri Richards' daughter Rhiannon and Mel Gooding a leading art expert and author who knew Ceri Richards well. The event will include the launch of 'The Methodist Modern Art Collection in Wales' with author Sarah Middleton, Freelance Arts Manager and Trustee of the Methodist Art Collection. The event will start at the University at 4pm before continuing to the Church for 6pm and is open to all.

Yn cynnwys cerddoriaeth gan Gorau'r Brifysgol a'r Gymuned, bydd yr arddangosfa yn cael ei hagog yn swyddogol gan Rhiannon, merch Ceri Richard, a Mel Gooding, awdur ac arbenigwr celf blaenllaw oedd yn adnabod Ceri Richards yn dda. Bydd yr agoriad yn cynnwys lansiad 'Y Casgliad Methodistiaidd o

Gelfyddyd Gyfoes yng Nghymru' gyda'r awdur Sarah Middleton, Rheolwr Celfyddydau Llawrydd ac Ymddiriedolwraig o'r Casgliad Celf Methodistiaidd. Bydd yr agoriad yn cychwyn yn y Brifysgol am 4pm cyn symud ymlaen i'r Eglwys ar gyfer 6pm, ac yn agored i bawb.

Mon 26 Jan, 6pm
University

7.30pm
Church

Llun 26 Ion, 6pm
Prifysgol

7.30pm
Eglwys

Gallery Tour in Welsh Taith o'r Oriol yn Gymraeg

Led by Andrew Parry Head of Welsh Language and Affairs at Glyndŵr University and Jennie Hurd Chair of Synod Cymru. The tour will begin at the University at 6pm before moving to the Church at 7.30pm for a tour of the artworks there. The tour will be in the Welsh language.

Dan arweiniad Andrew Parry, Pennaeth Iaith a Materion Cymraeg ym Mhrifysgol Glyndŵr a Jennie Hurd, Cadeirydd Synod Cymru. Bydd y daith yn cychwyn yn y Brifysgol am 6pm cyn symud ymlaen i'r Eglwys am 7.30pm am daith o'r gwaith celf yno. Cynhelir y daith yn Gymraeg.

Wed 28 Jan, 7pm
Church

Mer 28 Ion, 7pm
Eglwys

A conversation with Clive Hicks-Jenkins: 'painter of stories' / Sgwrs gyda Clive Hicks- Jenkins: 'peintiwr straeon'

Clive Hicks-Jenkins is a highly successful choreographer, director and stage designer who, in the 1990's, turned his creative energy to painting. He was commissioned to paint the story of the woman caught in adultery told in John 8v1-11 which is on display at the Methodist Church. He will be in conversation with Meryl Doney.

Roedd Clive Hicks-Jenkins yn goreograffydd, cyfarwyddwr a chynlluniwr llwyfan hynod lwyddiannus a drodd ei egni creadigol at beintio yn y 1990au. Cafodd ei gomisiynu i beintio hanes y wraig a ddaliwyd yn godinebu yn Ioan, pennod 8, 1-11 a arddangosir yn yr Eglwys Fethodistaidd. Bydd yn sgwrsio gyda Meryl Doney.

Putting Art in Churches Rhoi Celf mewn Eglwysi



What are the issues for artist and church in putting art into sacred (and awkward) places? Meryl Doney is a freelance fine art curator specialising in presenting exhibitions in cathedrals, churches, festivals and other challenging spaces.

Pa anawsterau y mae artistiaid ac eglwysi yn eu hwynebu wrth roi celf mewn llefydd cysegredig (a llechwith)? Curadur celfyddyd gain llawrydd yw Meryl Doney, sy'n arbenigo mewn cyflwyno arddangosfeydd mewn cadeirllanau, eglwysi, gwyliau a llefydd heriol eraill.

*Christ writes in the Dust - the woman taken in adultery / Crist yn ysgrifennu yn y Llŵch - y Wraig wedi ei dal mewn Godineb
Clive Hicks-Jenkins*

Reflections of the Light: Heaven and Earth? / Adlewyrchiadau o'r Goleuni: Nefoedd a Daear?

Prize-winning poet Philip Gross will read his poetry some written for this occasion and in the midst of the artworks themselves.

Bydd y bardd arobryn Philip Gross yn darllen ei farddoniaeth - gyda rhai cerddi wedi eu hysgrifennu ar gyfer yr achlysur hwn - ymhlith y gweithiau celf eu hunain.

What is it? / Beth ydi o?

Singer songwriter and arts curator Gavin Mart, and young person's poet laureate for Wales, Martin Daws, bring a creative acoustic set that explores what 'it' is at the heart of the artist. Presented in collaboration with 'Voicebox', the monthly spoken word event organised by local author Tim Humphreys-Jones and ThisProject Wrexham.

Bydd y canwr-gyfansoddwr a'r curadur celf Gavin Mart, a bardd llawryfog pobl ifanc Cymru, Martin Daws, yn perfformio set acwstig greadigol sy'n mynd ati i archwilio beth ydi'r 'o' sydd wrth galon yr artist. Wedi'i gyflwyno ar y cyd â 'Voicebox', y digwyddiad gair llafar misol a drefnir gan yr awdur llwyr Tim Humphreys-Jones a This Project, Wrecsam

Thurs 29 Jan, 5pm
University

lau 29 Ion, 5pm
Prifysgol

Thurs 5 Feb, 7.30pm
University

lau 5 Chwe, 7.30pm
Prifysgol

Mon 9 Feb, 7pm
Church

Llun 9 Chwe, 7pm
Eglwys

Wed 11 Feb, 6pm
University

Mer 11 Chwe, 6pm
Prifysgol

Thurs 19 Feb, 6pm
University

lau 19 Chwe, 6pm
Prifysgol

Thurs 26 Feb, 7pm
Church

lau 26 Chwe, 7pm
Eglwys

What have the arts ever done for Wrexham? / Beth wnaeth y celfyddydau i Wrecsam erioed?



Stuart Cunningham, Glyndŵr University Senior Lecturer in Computing in conversation with Steffan Jones-Hughes Arts Manager for Wrexham Council Borough Council and director of programme at Oriol Wrecsam. Artist and Writer.

Stuart Cunningham, Uwch Ddarlithydd mewn Cyfrifiadura ym Mhrifysgol Glyndŵr, yn sgwrsio gyda Steffan Jones-Hughes, Rheolwr Celfyddydau Cyngor Bwrdeistref Siro Wrecsam, cyfarwyddwr rhaglenni yn Oriol Wrecsam. Artist ac Awdur.

*The supper at Emmaus
Y Swper yn Emaus
Roy de Maistre*

The Holy Trinity in Scripture in the light of Eastern Orthodox Iconography Y Drindod Sanctaidd yn yr Ysgrythur yn ngoleuni Eiconograffeg Uniongred Dwyreiniol

Can art be a window on eternity? What has the orthodox Christian tradition to say to us about the relationship between art and prayer? Led by Archimandrite Deiniol, University Chaplain, Orthodox Priest and Welshman.

A all celfyddyd fod yn ffenestr ar dragwyddoldeb? Beth sydd gan y traddodiad Cristnogol uniongred i'w ddweud wrthym am y berthynas rhwng celfyddyd a gweddi? Dan arweiniad yr Archimandrite Deiniol, Caplan Prifysgol, Offeiriad Uniongred a Chymro.

Arts and Culture for Health and Wellbeing Celf a Diwylliant ar gyfer Iechyd a Lles

The arts and culture touch people's lives at every level because they encompass those things that make life worth living, contribute to the level of a country's civilisation and enhance quality of health wellbeing and help cope with challenges and change. The talks and discussion will include the arts as therapies, health and community development and the humanities in health professional education and training. John Wyn Owen CB, Royal Society for Public Health, Professorial Fellow and Treasurer of the Learned Society of Wales. Elizabeth Aylett, Head of Arts Therapies & Clinical Operational Lead, Betsi Cadwaladr University Health Board. Rebecca Friel, Director, Odd Theatre Company, Manchester. Event organised in collaboration with the Institute of Welsh Affairs (the IWA).

Mae celfyddydau a diwylliant yn cyffwrdd bywydau pobl ar bob lefel am eu bod yn cwmpasu'r pethau hynny sy'n gwneud bywyd yn werth ei fyw, yn cyfrannu at lefel o wareiddiad cenedl ac yn gwella ansawdd iechyd a lles ac yn helpu i ymdopi gyda heriau a newidiadau. Bydd y sgysrsiau a'r trafodaethau yn cynnwys y celfyddydau fel therapi, datblygu iechyd a chymuned a'r dyniaethau mewn addysg a hyfforddiant iechyd proffesiynol. John Wyn Owen CB, Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd, Cymrawd Athrawol a Thrysorydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Elizabeth Aylett, Pennaeth Therapiau Celf a Phennaeth Gweithredol Clinigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Rebecca Friel, Cyfarwyddwr, Odd Theatre Company, Manceinion.



Crucif x and Candles, Night / Croes a Chanhwylau, Nos
Patrick Heron

Creative Futures, Oriol Sycharth Gallery Dyfodolion Creadigol, Oriol Sycharth

Professor Estelle Thompson talks about collaborative exhibition organisation from its initial concept to installation focussing on the Heaven and Earth exhibition and previous Oriol Sycharth Gallery shows.

Yr Athro Estelle Thompson yn siarad am drefnu arddangosfa gydweithredol, o'i chysyniad cychwynnol i'w gosod, gan ganolbwyntio ar yr arddangosfa Nef a Daear a sioeau blaenorol a gynhaliwyd yn Oriol Sycharth.

Experiencing Art and Faith Profi Ffydd a Celfyddyd a Ffydd

William K Kay, Professor of Theology at Glyndŵr University, will explore how both what we 'feel' and what we 'think' are important in our experience of both art and faith.

Bydd William K Kay, Athro mewn Diwyndiaeth ym Mhrifysgol Glyndŵr yn archwilio'r modd y mae'r hyn yr ydym yn ei 'deimlo' a'r hyn yr ydym yn ei 'feddwl' yn bwysig yn ein profiad o celfyddyd a ffydd.

Words of Art: Art of Words Geiriau Celfyddyd: Celfyddyd Geiriau

With Chaired and Crowned Bard Mererid Hopwood. A Welsh language workshop to inspire writing about art or using art as a starting point for writing.

Geiriau Celfyddyd: Celfyddyd Geiriau yng nghwmni'r Prifardd a Phriflenor Mererid Hopwood. Gweithdy i symblu ysgrifennu am gelf neu defnyddio celf fel man cychwyn i ysgrifennu.

Mon 2 March, 5pm
University

Llun 2 Mawrth, 5pm
Prifysgol

Mon 9 March, 7pm
Church

Llun 9 Mawrth, 7pm
Eglwys

Saf 21 March, 2pm
University

Sad 21 Mawrth, 2pm
Prifysgol

Sun 22 March, 6pm
Church

Sul 22 Mawrth, 6pm
Eglwys

The Seven Last Words of our Saviour on the Cross / Saith Gair Olaf Ein Gwardwr ar y Groes



Performed by the Solem String Quartet. The evening will begin and end with a short prayer. Sponsored by Higher Education Consultancy Services Ltd (HECSL).

Perfformiad gan bedwarawd llinynnau y Solem String Quartet. Bydd y noson yn agor ac yn cloi gyda gweddi fer. Noddwyd gan yr HECSL.

Pink Crucifixion
Croeshoellad Pinc
Craigie Aitchison

Mon 23 March, 6pm
TV Studio
University

Llun 23 Mawrth, 6pm
Stiwidio Deledu'r
Brifysgol

What's been going on? Beth sydd wedi bod yn digwydd?

Estelle Thompson, Head of Division Media, Art & Design at Glyndŵr University and Richard Sharples, Methodist Minister, reflect upon this unique collaboration as the exhibition draws to a close.

Bydd Estelle Thompson, Pennaeth Adran y Cyfryngau, Celf a Dylunio ym Mhrifysgol Glyndŵr a Richard Sharples, Gweinidog Methodistiaidd, yn trafod y cydweithrediad unigryw yma wrth i'r arddangosfa ddirwyn i ben.

From 27 March
Open Thurs –
Sat 12 – 4pm

O'r 27ain o Fawrth
Ar agor Iau –
Sad 12 – 4pm

Earth to Heaven / Daear i'r Nefoedd

An exhibition of creative responses to the Exhibition will open at Un-Deg-Un, Regent Street (the former JJB Sports shop) immediately after the exhibition closes. This is an open exhibition, and those interested in submitting art works for inclusion should contact Kirsty Gaughan (kirstylouisegaughan@gmail.com).

Bydd arddangosfa o ymatebion creadigol i'r Arddangosfa yn agor yn Un-Deg-Un, Stryt y Rhaglaw (siop JJB Sports gynt) yn syth ar ôl i'r arddangosfa ddod i ben. Arddangosfa agored fydd hon, a dylai'r rheini sydd â diddordeb mewn cyflwyno gweithiau celf i'w cynnwys ynddi gysylltu â Kirsty Gaughan: (kirstylouisegaughan@gmail.com).

Stages of the Way

Events taking place at the Methodist Church as we journey towards Easter

A weekly opportunity to reflect on the interaction between the art works at the Church and themes suggested by gospel readings.

Wed 18th Feb 7pm **Temptation**

(Mark 1v9-15) Led by Rev Christine Jones, member of the Iona Community, Methodist Minister and recently retired from Trinity Methodist Church in Ellesmere Port, where the Collection was exhibited in Spring 2014.

Wed 25 Feb 7pm **Decision and Cost**

(Mark 8v31-38) Led by Andrew Herbert, Mission Development Officer at Wesley Church Centre, Chester, where the Collection was exhibited during Autumn 2012.

Wed 4 March 7pm **Anger**

(John 2v13-22) Led by Rev Jennie Hurd, Chair of Synod Cymru - the Welsh language district of the Methodist Church. Welsh Language Session.

Wed 11 March 7pm **Light and Life**

(John 3v14-21) Led by Rev Paul Braisdell, Methodist Minister from the Chester and Delamere Forest Circuit who began as a Local Preacher in and around his home town of Wrexham.

Wed 18 March 7pm **Dying**

(John 12v20-33), Led by Prof Maureen Wayman, former Dean of the Faculty of Art and Design and Pro Vice Chancellor at Manchester Metropolitan University. Currently Visiting Professor at University of Chester and University of Leeds.

Wed 25 March 7pm **Hosanna**

(Mark 11v1-11) Led by Dr Susan Liggett, Fine Artist and Senior Lecturer at Glyndŵr University.

Camau'r Daith

Digwyddiadau a gynhelir yn yr Eglwys Fethodistaidd wrth i ni ymdeithio tuag at y Pasg

Cyflfe wythnosol i fyfyrion ynghylch y rhyngweithiau rhwng y gweithiau celf yn yr Eglwys a'r themâu a awgrymir gan ddarlenniadau o'r efengyl.

Mercher 18 Chwefror 7pm **Temfasiwn**

(Marc 1 a.9-15) Dan arweiniad y Parch. Christine Jones, aelod o Gymuned Iona. Gweinidog Methodistaidd a ymdeolodd yn ddiweddar o Eglwys Fethodistaidd Trinity yn Ellesmere Port. lle'r arddangoswyd y Casgliad o Gelfyddyd Fethodistaidd yng Ngwanwyn 2014.

Mercher 25 Chwefror 7pm **Pris a Benderfyniad**

(Marc 8 a.31-38) Dan arweiniad Andrew Herbert. Swyddog Datblygu Cenhadaeth yng Nghanolfan Eglwys Wesley, Caer. lle'r arddangoswyd y Casgliad o Gelfyddyd Fethodistaidd yn ystod Hydref 2012.

Mercher 4 Mawrth 7pm **Dicter**

(Ioan 2 a.13-22) Dan arweiniad y Parch. Jennie Hurd. Cadeirydd Synod Cymru - cangen Gymraeg yr Eglwys Fethodistaidd. Sesiwn Gymraeg.

Mercher 11 Mawrth 7pm **Goleuni a Fywyd**

(Ioan 3 a.14-21) Dan arweiniad y Parch. Paul Braisdell. Gweinidog Methodistaidd a Gyfadran Caer a Delamere Forest, a ddechreuodd ei yrfa fel Pregethwr Lleol yn ac o amgylch Wrecsam, ei dref enedigol.

Mercher 18 Mawrth 7pm **Marw**

(Ioan 12 a.20-33), Dan arweiniad yr Athro Maureen Wayman, cyn Ddeon y Gyfadran Celf a Dylunio a Dirprwy Is-Ganghellor ym Mhrifysgol Fetropolitaidd Manceinion. Ar hyn o bryd y mae'n Athro Gwadd ym Mhrifysgol Caer a Phrifysgol Leeds.

Mercher 25 Mawrth 7pm **Hosanna**

(Marc 11 a. 1-11) Dan arweiniad Dr Susan Liggett, Artist Cain ac Uwch Ddarlithydd ym Mhrifysgol Glyndŵr.

Worship – At the Methodist Church

Sunday Mornings 10.30am: The morning service will focus upon one of three particular works of art at the Church:

1 Feb – *The Dalit Madonna* by Jyoti Sahi, led by Rev Christine Jones with liturgical dance by Dr Jessica Sinniah – an internationally travelled Indian classical dance choreographer. She will lead a dance workshop during the afternoon from 3 – 5pm with a view to producing a piece during the evening service.

22 Feb – *The Elements of Communion* by Jacques Iselin, led by Rev John Cooke including the celebration of Holy Communion.

22 March – *The Mocking of Christ* by Peter Rogers, led by Rev Graham Kent.

Sunday Evenings 6pm:

25 Jan – reflecting on Clive Hicks-Jenkins' work *The Woman taken in Adultery* and upon the bible story which inspired it.

1 March – worship for St David's Day will be led by Leslie Griffiths, The Rev'd the Lord Griffiths of Burry Port, and promises to be an intriguing experience. This is a United Service organised and sponsored by 'Cytun with Mission Wrexham' on behalf of the most of the Churches in Wrexham.

22 March – Passion Sunday, the evening service will take the form of a performance of Haydn's 'Seven Last Words of our Saviour on the Cross'. Commissioned in 1783 for a Good Friday service in Cádiz, Spain, Haydn adapted it in 1787 for string quartet. Poetry will be interspersed with music and the whole context is one of worship.

Saturday February 28th 3-5.30pm – Messy Church with Pictures!

Messy Church is a new way of adults and children worshipping, creating and eating together which is rather messy. The afternoon will be led by Luke Curran and Delyth Wyn Davies of the Methodist Church Disciple and Ministries Learning network. Bilingual Event.

Addoli – Yn yr Eglwys Fethodistaidd

Boreau Sul 10.30am: Bydd gwasanaeth y bore yn canolbwyntio ar un o dri gwaith celf penodol yn yr Eglwys:

1 Chwefror – Y Forwyn Ddalitaidd *The Dalit Madonna* gan Jyoti Sahi, dan arweiniad y Parch. Christine Jones, gyda dawnsio litwrgaidd gan Dr Jessica Sinniah – coreograffydd dawnsio clasurol Indiaidd sydd wedi teithio'r byd. Bydd yn arwain gweithdy dawnsio yn y prynhawn rhwng 3 – 5pm gyda'r bwriad o gynhyrchu darn yn ystod gwasanaeth yr hwyr.

22 Chwefror – Elfennau Cymundeb *The Elements of Communion* gan Jacques Iselin, dan arweiniad y Parch. John Cooke, gan gynnwys dathliad o'r Cymundeb Sanctaidd.

22 Mawrth – Gwatwar Crist *The Mocking of Christ* gan Peter Rogers, dan arweiniad y Parch. Graham Kent.

Nosweithiau Sul 6pm:

25 Ionawr – myfyrio ynghylch gwaith Clive Hicks-Jenkins, Y Wraig a Gymerwyd mewn Godineb *The Woman taken in Adultery* a'r stori Feiblaidd a'i ysbrydolodd.

1 Mawrth – addoli ar Ddydd Gŵyl Dewi, dan arweiniad Leslie Griffiths, Y Parchedig yr Arglwydd Griffiths o Borth Tywyn, sy'n argeoli i fod yn brofiad diddorol iawn. Gwasanaeth Undebol yw hwn a drefnir ac a noddir gan Cytun gyda Chenhadaeth Wrecsam ar ran y mwyafrif o Eglwysi Wrecsam.

22 Mawrth – Ar Sul y Dioddefaint, bydd gwasanaeth yr hwyr ar ffurf perfformiad o 'Saith Gair Olaf Ein Gwaredwr ar y Groes' gan Haydn. Wedi'i gomisiynu yn 1783 ar gyfer gwasanaeth Gwener y Grogliith yn Cádiz, Sbaen, addasodd Haydn y darn ar gyfer pedwarawd llinynnau yn 1787. Cymysgedd o farddoniaeth a cherddoriaeth, mewn cyd-destun o addoliad.

Dydd Sadwrn Chwefror 28ain 3-5.30pm – Eglwys Llan Llanast Anniben gyda Lluniau!

Mae Eglwys Llan Llanast Anniben yn ffordd newydd i blant ac oedolion addoli, creu a bwyta gyda'i gilydd. Bydd y prynhawn yn cael ei arwain gan Luke Curran a Delyth Wyn Davies o Rwydwaith Dysgu Disgyblion a Gweinidogaethau'r Eglwys Fethodistaidd. Digwyddiad dwyieithog.

Schools' Programme / Rhaglen Ysgolion

The exhibition, *Heaven and Earth*, references the life of Jesus as well as some stories from the Old Testament, including more abstract expressions of Christian faith. Work from artists from within most of the significant art movements of the last 60 years are to be found in the exhibition. We want young people from Wrexham to benefit from this unique learning opportunity. Interactive sessions are offered tailored to both Primary and Secondary Schools.

Please ring Glenda Kelly on 01978 753117 (glendakelly1@btinternet.com) to book a time.

Mae'r arddangosfa yn cyfeirio at fywyd Iesu yn ogystal ag ambell stori o'r hen Destament, gan gynnwys mynegiadau mwy haniaethol o'r ffydd Gristnogol. Mae'r arddangosfa yn cynnwys gwaith gan artistiaid o'r mwyafrif o fudiadau celf mwyaf pwysigaf y 60 mlynedd diwethaf. Rydym am i bobl ifanc Wrecsam elwa o'r cyfle dysgu unigryw hwn. Mae sesiynau rhyngweithiol ar gael ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd.



The washing of the feet
Golchir Traed
Gislaine Howard

Ffoniwch Glenda Kelly ar 01978 753117 (glendakelly1@btinternet.com) i drefnu amser.

Acknowledgements / Diolchiadau

We wish to thank the Trustees of the Methodist Modern Art Collection for enabling the works to come to Wrexham. The exhibition and programme has been funded in the main by Wrexham Methodist Circuit with generous (in kind) support from Glyndŵr University. We wish to thank Eric Dudley Smith for a very generous donation in memory of his late wife Gillian, and Wales Synod and Synod Cymru (the Methodist Church in Wales) for similarly generous support. Donations towards the project would be most gratefully received and should be made payable to 'Wrexham Methodist Circuit' and left at the Church. All images are from the Methodist Modern Art Collection. © TMCP, used with permission.

Hoffem ddiolch i Ymddiriedolwyr y Casgliad o Gelfyddyd Fodern Fethodistaidd am alluogi'r arddangosfa i ddod i Wrecsam. Arianwyd yr arddangosfa a'r rhaglen yn bennaf gan Gylchdaith Fethodistaidd Wrecsam gyda chymorth hael gan Brifysgol Glyndŵr. Hoffem ddiolch i Eric Dudley Smith am gyfraniad hael iawn er cof am ei ddiweddar wraig Gillian, ac i Synod Cymru (yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru) am gymorth hael cyffelyb. Derbynnir yn ddiolchgar unrhyw roddion tuag at y prosiect a dylent gael eu gwneud yn daladwy i 'Wrexham Methodist Circuit' a'u gadael yn yr Eglwys. Casgliad Celfyddyd Fodern y Methodistaidd. © TMCP, defnyddiwyd gyda chaniatâd.





orielsycharthgallery

The Methodist Church Yr Eglwys Fethodistaidd



Glyndŵr University, Mold Road, Wrexham, LL11 2AW
Tel: 01978 293950 Email: orielsycharth@glyndwr.ac.uk
www.glyndwr.ac.uk/orielsycharthgallery
Mon – Sat 9.30am – 4pm. Free entry.

Regent Street, Wrexham, LL11 1RY
Tel: 01978 361489
www.wrexham-methodist.org.uk
Mon – Sat 9.30am – 4pm. Free entry.

Situated above the main University Reception.
Lift access and plenty of free parking on site.
There is a 10–15 minute walk between the University and the Church.

Situated on Regent Street in the town centre of Wrexham. Entry to the building is via the main stairwell shown in the foreground in this photo. Lift access and several paid car parks located nearby.

Prifysgol Glyndŵr, Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam, LL11 2AW
Ffôn: 01978 293950 E-bost: orielsycharth@glyndwr.ac.uk
www.glyndwr.ac.uk/orielsycharthgallery
Llun – Sad 9.30am – 4pm. Mynediad Am Ddim.

Stryd y Rhaglyw, Wrecsam, LL11 1RY
Ffôn: 01978 361489
www.wrexham-methodist.org.uk
Llun – Sad 9.30am – 4pm. Mynediad Am Ddim.

Wedi'i lleoli uwchben prif Dderbynfair Brifysgol.
Mae yna lifft a digonedd o lefydd parcio am ddim ar y safle.
Mae'n cymryd 10–15 munud i gerdded rhwng y Brifysgol a'r Eglwys.

Wedi'i leoli ar Stryd y Rhaglyw yng nghanol tref Wrecsam. Ceir mynediad i'r adeilad trwy'r prif risiau a welir yn rhu blaen y llun yma.
Mae yna lifft a sawl maes parcio talu gerllaw.

How to find us / Sut i ddod o hyd i ni

Public Transport

Wrexham General and Central Train Stations and the town centre Bus Station are a short walk away from both venues.

Travel by road

Glyndŵr University is located off Junction 5 of the A483 signposted Wrexham/Mold. Travel along Mold Road to reach the town centre car parks for the Methodist Church.

Trafnidiaeth Gyhoeddus

Mae Gorsafoddd Trên Canolog a Chyffredinol Wrecsam yn agos ar droed o'r ddau leoliad.

Teithio ar y ffordd

Mae Prifysgol Glyndŵr wedi'i lleoli oddi ar Gyffordd 5 o'r A483 gydag arwydd Wrecsam/Yr Wyddgrug. Teithiwch ar hyd Ffordd yr Wyddgrug i gyrraedd meysydd parcio canol y dref ar gyfer yr Eglwys Fethodistaidd.

